



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Adolygiad o Gadernid Sioeau Amaethyddol yng Nghymru
Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion**

	ARGYMHELLIAD	Canlyniad	Amserlen cyflawni
1.	Ystyried a ddylid cynnig cymorth ariannol i CAFC er mwyn helpu'r Gymdeithas drwy'r cyfnod anodd a digynsail hwn.	Cadernid ariannol cynyddol. Y gallu i barhau i baratoi ar gyfer y dyfodol, gan helpu pobl eraill i ymdopi â'r sefyllfa bresennol (hy rhith sioeau)	Hydref 2020
2.	Ymchwilio i'r posibilrwydd o roi cymorth ariannol er mwyn sicrhau bod sioeau sirol yn goresi (yn enwedig y rhai sydd â meysydd parhaol).	Cadernid ariannol cynyddol. Y gallu i baratoi ar gyfer y dyfodol.	Hydref 2020
3.	Paratoi a rhannu canllawiau ymhlith trefnwyr sioeau yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal digwyddiadau yn 2021 yn unol ag unrhyw fesurau neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus sydd ar waith.	Cynyddu gallu Cymdeithasau i gynllunio a chynnal sioeau sy'n cydymffurfio â'r rheolau y flwyddyn nesaf.	Gwanwyn 2021
4.	Ystyried sefydlu 'Cronfa Arloesi' lle gallai sioeau o bob maint gynnig syniadau ar gyfer cymorth. Dyma gyfle i arloesi a gallai cronfa helpu cymdeithasau i arbrofi gyda syniadau newydd, cynnal rhith gystadlaethau neu chwilio am ffyrdd o wella eu hól troed carbon, er enghraifft.	Gwell effeithlonrwydd, cadernid a diddordeb yng Nghymdeithasau'r Sioeau.	Gwanwyn 2021
5.	Annog mwy o gydweithredu rhwng sioeau a chydweithio ag ASAO er mwyn cefnogi'r uchelgais hon, gan bwysu arnynt i gynnal digwyddiadau (rhith rhith neu fel arall) i gefnogi'r diwydiant wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.	Gwell cyfathrebu a rhannu arferion gorau sy'n arwain at well cadernid ac effeithlonrwydd a gwell profiadau.	Parhaus
6.	Gweithio ochr yn ochr â Croeso Cymru er mwyn sefydlu sut gellir hyrwyddo'r ffaith bod sioeau amaethyddol yn dychwelyd yn 2021. Gellir gwneud hyn gan ddilyn thema 2021 – "Blwyddyn yr Awyr Agored".	Annog mwy o bobl i fynychu sioeau amaethyddol yn y dyfodol	Gwanwyn 2021



Gwanlyd 2021

7.	Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno rhywfaint o hyfforddiant strwythuredig, gan gynnig Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i achredu neu gymwysterau ffurfiol i unigolion sy'n gweithio yn niwydiant y sioeau. Yn ychwanegol, a allai gwirfoddoli gyda phwyllgor sioe gael ei gydnabod mewn rhyw ffordd mewn cynlluniau cymorth amaethyddol presennol neu yn y dyfodol?	Cysondeb o ran dull o fewn Cymdeithasau Sioeau a sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol i sgiliau trefnwyr sioeau.	Llywodraeth Cymru Welsh Government
----	--	---	---------------------------------------